# Bwystfilod Bach Y Goedwig Law Celtaidd

**Amser**: 15-20 munud **Lleoliad**: Dosbarth

**Bwriad**: Dysgu am rôl bwystfilod bach mewn ecosystem coedwig a pham maen nhw'n ddibynnol ar gynefin y goedwig i oroesi

**Pwnc:**
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Sgiliau:**
Llythrennedd

**Mae anifeiliaid y Goedwig Law yn bwydo ar blanhigion, ffwng ag anifeiliaid eraill. Fedrwch chi roi enghraifft o:**

Anifail sydd yn bwyta planhigyn ……………………………………………………………………...

Anifail sydd yn bwyta ffwng ……………………………………………………………………………...

Anifail sydd yn bwyta anifail ……………………………………………………………………………..

Anifail sydd yn bwyta pethau sydd wedi marw (detritws) ……………………………….

Anifail sydd yn bwyta baw anifeiliaid ……………………………………………………………..

Anifail sydd yn bwyta hadau coed ………………………………………………………………….…...

Mae gan y bwystfilod bach i gyd rôl wahanol o fewn yr ecosystem.
Mae **detritysydd** yn casglu deunyddiau marw ac yn eu bwyta i greu pridd cyfoethog.
Mae **llysysyddion** yn bwyta llystyfiant (planhigion).
Yna mae'r llysysyddion yn cael eu bwyta gan **gigysyddion** (anifeiliaid sy'n bwyta anifeiliaid eraill).
Mae rhai hefyd yn **beillwyr** sy'n helpu planhigion i atgenhedlu trwy daenu paill.
Mae pob un o'r rolau hyn yn bwysig i fywyd yn y goedwig.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000
Life

# Bwystfilod Bach Y Goedwig Law Celtaidd

## Fedrwch chi baru'r disgrifiadau gyda'r fath o anifail cywir?

| | |
|---|---|
| Rwy'n symud o dan y ddaear gan dynnu deunydd planhigion i'r pridd a'i fwyta. | Rwy'n beilliwr |
| Rwy'n symud o flodyn i flodyn yn casglu neithdar a phaill ac yn peillio planhigion. | Rwy'n detritysydd |
| Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn casglu deunydd marw a'i fwyta. | Rwy'n llysysydd |
| Rwy'n symud ar hyd planhigion gan aros i fwyta'r coesynnau neu'r dail wrth fynd. | Rwy'n gigysydd |
| Rwy'n symud ar hyd y ddaear yn hela pryfaid a'u bwyta. | Rwy'n detritysydd |

**Fedrwch chi roi enghraifft o fwystfil bach gall y disgrifiadau uchod cyfeirio?**

____________________ ______________________ ____________________

____________________ ______________________

**Beth am ddarparu rhestr o'r llefydd fedrwch chwilio am bwystfilod bach ar gyfer pryd 'dach chi'n ymweld â choedwig nesaf.**